



miliwn o  
leisiau dros  
fyd natur

Cylchgrawn projectau amaethyddol yr RSPB

# Cnoi Cil

RHIFYN 11 RHAGFYR 2012

Rheolir y fferm da byw ar Ynys Dewi gan yr RSPB; fe'i dynodwyd am ei bywyd gwyllt amrywiol a phrin



Luniau: Lisa Morgan (RSPB)



Mae Dewi'r ci defaid yn aelod hanfodol o'r tîm bugeilio

## Fferm ynysig

Saif 260 hectar (ha) hyfryd o rostir arfordirol a glaswelltir asid Ynys Dewi gilometr yn unig oddi ar lannau gogledd Sir Benfro. Prynwyd yr ynys 20 mlynedd yn ôl gan yr RSPB, sydd wedi ei rheoli ers hynny. Drwy'r rhan fwyaf o'r 20fed ganrif, bu wardeniaid mygedol yn byw ochr yn ochr â ffermwyr denantiaid preswyl. Fe'i dynodwyd yn Warchodfa Natur Genedlaethol ym 1996, ac mae'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA) oherwydd ei brain coesgoch, adar môr, morloi llwyd, planhigion dyfriol prin a'r rhostir eang.

Mae pobl wedi byw ar Ynys Dewi ers amser maith. Yn ôl y cofnodion ysgrifenedig cyntaf sydd ar gael roedd yr ynys yn cael ei hamaethu ym 1293, pan y'i disgrifiwyd yn rhestr eiddo'r

eglwys fel ynys ffrwythlon gydag ystod eang o ffermio cymysg.

Prynwyd yr ynys gan yr RSPB a nhw sydd hefyd yn rheoli'r da byw yma, rhywbeth eithaf anghyffredin i'r elusen. Rydym yn cynnal praidd o rai cannoedd o famogiaid mynydd Cymreig. Gan eu bod yn eithaf gwydn, does dim angen cysgod arnyn nhw drwy gydol y flwyddyn, ac maen nhw'n wyna'n eithaf didrafferth. Mae un o'n cymdogion agosaf ar y tir mawr yn fugail profiadol ac mae'n ein helpu gyda'r praidd. Yn rhan hanfodol o'n tîm bugeilio mae ein ci defaid Dewi.

Mae angen cynllunio manwl i gludo da byw, ac rydym yn ddibynnol ar amodau'r môr. Rydym wedi datblygu

system ddibynadwy sy'n ein galluogi i symud hyd at 60 o wŷn ar y tro. Ar gyfer y daith mae angen dau gi defaid, amryw o bobl a chwch gwaith alwminiwm. Yn aml mae ffermwyr yn prynu ein defaid ar gyfer eu gorffen, ac fe all hyn olygu taith cwch o ddeng munud a thaith gerdded fer ar hyd llwybr yr arfordir i'w cartref newydd – o'r ynys i'r tir mawr mewn hanner awr.

O ganlyniad i'n cynllun pori er cadwraeth mae llystyfiant pennau'r clogwyni yn fyr ac yn addas ar gyfer y frân goesgoch. Mae hyn yn gadael porfa dwmpathog tua'r tir, sy'n cynnal yr ehedydd a'r llinos. Rydym yn falch o barhau â'r traddodiad hir o gadw da byw ar y fferm Gymreig hyfryd hon. Ewch i [www.rspb.org.uk/ramseyisland](http://www.rspb.org.uk/ramseyisland) am fwy o wybodaeth.



Mae Rhaglen LIFE+ yr UE yn ariannu gwaith yr RSPB sy'n cynnal ffermio cyfeillgar i fywyd gwyllt sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn yr Undeb Ewropeaidd.

**Yn y rhifyn hwn: Galw am symleiddio Glastir • Ffermwyr a'r RSPB yn hybu amaeth-amgylchedd yn senedd yr UE • Adolygu'r PAC • Ffermio Ilaeth a bywyd gwyllt • Enillydd GNFF**



Ffermwyr yn galw heibio Brwsel i ddweud eu dweud

RSPB

## Adolygiad Gwyrdd y Polisi Amaeth Cyffredin – ynta dim ond y *status quo*?

**Yn ystod 2012, mae llywodraethau'r UE ac ASE wedi bod yn datblygu eu safleoedd trafod ar yr adolygiadau i'r PAC. Mae hyn yn cynnwys dulliau gwahanol i'r rhai a awgrymwyd yng nghynigion 2011 y Comisiwn.**

Y ffocws i lawer, a'r mater mwyaf dadleuol o bell, yw sicrhau fod 'Colofn 1' yn fwy gwyrdd. Mae'r RSPB yn ystyried bod ei wneud yn fwy gwyrdd yn gam hanfodol tuag at wella perfformiad amgylcheddol ffermio yn yr UE. Mae'n hanfodol os yw'r adnoddau naturiol sydd eu hangen ar ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn mynd i gael eu gwarchod.

Ond mae hyn yn dibynnu ar fesurau wedi eu cynllunio'n dda yn ein polisi. Felly mae'n hanfodol bwysig fod pethau fel Ardaloedd o Ffocws Amgylcheddol yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n codi'r safon ac nad ydyn nhw'n tanseilio'r gwaith gwych a wnaed eisoes gan lawer o ffermwyr drwy gyfrwng cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Fodd bynnag, er gwaethaf y trafod, nid oes sicrwydd y bydd y cam hwn o adolygu yn gwredu PAC sydd wedi ei arfogi a'i ariannu'n briodol, fel ei fod yn hybu ffermio mwy

cynaliadwy a chyfeillgar i fywyd gwyllt. Cafwyd galwadau gan lywodraethau ac ASE am fwy o hyblygrwydd ar wneud pethau'n fwy gwyrdd. Fe all hyn olygu arafu unrhyw gamau ymlaen. Mae risg na fyddwn yn gwneud dim ond ail bobî ein PAC presennol. Fe all ariannu amaeth-amgylcheddol gael ei docio yng Ngholofn II. Mae proses Cyllideb yr UE sy'n digwydd yr un pryd (ac a benderfynir ar ddiwedd 2012 neu ddechrau 2013) yn debygol o docio'r arian sydd ar gael ar gyfer PAC, ac fe all hyn effeithio'n drwm ar Golofn II. Bydd hyn yn tanseilio fwyfwy'r gwariant a dargedwyd tuag at yr amgylchedd.

Meddai llyffant enwog un tro: "Dydy hi ddim yn hawdd bod yn wyrdd" ac nid oedd ymhell o'i le, ond nid yw'r dewis arall hyd yn oed yn opsiwn.

Bydd angen i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau gymryd camau cadarn wrth benderfynu ar y PAC nesaf yn ystod 2013. Bydd angen iddyn nhw sicrhau bod y polisi yn ateb anghenion ffermio, yr amgylchedd a chymdeithas, ac mae hynny'n golygu mesurau gwyrdd cadarn ac ariannu digonol ar gyfer amaeth-amgylchedd. **Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jenna Hegarty ar [jenna.hegarty@rspb.org.uk](mailto:jenna.hegarty@rspb.org.uk)**

## Hyrwyddo amaeth-amgylchedd yn Senedd Ewrop

**Cyfarfu ffermwyr yr UE sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt ym Mrwsel ym mis Mawrth i alw am fwy o gefnogaeth ar gyfer mesurau amgylcheddol yn adolygiad y Polisi Amaeth Cyffredin (PAC).**

Cefnogodd yr RSPB (fel rhan o BirdLife International) wyth o ffermwyr o'r DU, Iwerddon, Portiwgal a Latfia wrth iddyn nhw ymweld â'u Haelodau o'r Senedd Ewropeaidd (ASE) ar y Pwyllgor Amaethyddol. Dywedodd y ffermwyr mor bwysig yw cynlluniau amaeth-amgylcheddol Colofn II ar eu ffermydd.

Eglurodd y ffermwyr i'w ASE hefyd sut mae'r cynlluniau hyn yn eu galluogi i gamu 'mlaen dros natur, yn ogystal â chynhyrchu nwyddau amaethyddol. Maen nhw hefyd yn darparu buddion

i'r amgylchedd, eu busnesau a chymdeithas. Gofynnodd y ffermwyr i'r ASE gynyddu'r arian ar gyfer amaeth-amgylchedd yn y PAC 2014-2020 ac fe'u gwahoddwyd i ymweld â'u ffermydd i weld y cynlluniau rhyfeddol yma ar waith. Pwysleisiwyd hefyd yr angen ar frys i sianelu ariannu PAC tuag at systemau ffermio systemau ffermio o werth natur uchel sydd mewn perygl.

Meddai Gethin Owen, un o'r ffermwyr fu'n cymryd rhan, "Roeddwn i'n falch ofnadwy o gynrychioli ffermwyr y DU sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae pobl yn sôn yn aml wrth yr ASE am ddiffygion y cynlluniau yma, felly roedd yn wirioneddol bwysig gadael iddyn nhw wybod mor wych yw buddion cynllun

a weithredir yn dda a pham y dylen nhw warchod ariannu Colofn II yn adolygiad y PAC."

Gan fod Senedd Ewrop yn chwarae rhan arwyddocaol wrth benderfynu ar gynllun ac ariannu'r PAC nesaf, roedd yr ymweliad hwn yn gyfle gwych. Mae'n dangos sut mae ffermwyr a'r RSPB yn dod at ei gilydd ar faterion allweddol.

Gobeithiwn y bydd y negeseuon grymus yma gan ffermwyr yn sicrhau bod safle trafod y Senedd ar y PAC yn galw am nawdd digonol ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol gwerthfawr a systemau bregus o Werth Natur Uchel. **Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Jenna Hegarty ar [jenna.hegarty@rspb.org.uk](mailto:jenna.hegarty@rspb.org.uk)**

## Yr angen am symleiddio Glastir

**Mae dulliau o gynyddu'r nifer sy'n ymuno â'r cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir yn cael eu hystyried gan Alun Davies, yr Is-weinidog dros Amaeth. Mae'r RSPB yn cytuno gydag ef: mae angen symleiddio a chyflymu'r broses ymgeisio a rheoli, ac mae angen cyfnod o sicrwydd ar Glastir i fagu hyder o fewn y gymuned amaethyddol.**

Rydym hefyd yn cymeradwyo'r neges gadarn mai pwrpas amaeth-amgylcheddol yw darparu cymdeithas ehangach Cymru gyda buddion amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys dod â phrinhad bywyd gwyllt Cymru i ben drwy wobrwyo ffermwyr sydd eisoes yn rheoli eu tir trwy ddulliau sy'n sicrhau budd i rywogaethau prin fel y gornchwiglen, llygoden bengron y dŵr a phlanhigion tir â'r prin, a thrwy annog eraill i wneud yr un fath.

Rhaid i'r Dirprwy Weinidog sicrhau nad yw'r ffaith fod y cynllun yn fwyfwy poblogaidd yn cyfaddawdu effeithiolrwydd ac rydym yn pwysu ar y Llywodraeth i barhau i weithio tuag at wella cydbwysedd a chynnwys presgripsiynau'r cynllun fel eu bod yn ateb amcanion amgylcheddol datganedig yn llawn. Mewn ymateb i feirniadaeth ddiweddar parthed newidiadau i gyllideb amaeth-amgylcheddol Cymru, meddai Alun Davies: "Hoffwn ddatgan yn hollol glir bod y dosraniad o 60%

o gyllideb y Rhaglen Ddatblygu Gwledig (RhDG) i Axis 2 yn gywiriad ar gyfer sicrhau bod yr ariannu Ewropeaidd presennol yn cael ei wario.

"Ni fyddai o fudd i neb yma yng Nghymru pe bai'r arian hwn yn parhau heb ei wario ac yn gorfod cael ei ddychwelyd i Frwsel. Yn sicr, nid yw'r newid hwn i leiafswm gwariant cyllideb Axis 2 yn cynrychioli cyflwyniad uchafswm ar wariant drwy'r cynllun Glastir, ond yn hytrach yn adlewyrchu sefyllfa'r gyllideb yn seiliedig ar y sawl sydd wedi ymuno hyd yma. Mae'r llywodraeth yn ystyried bod ei hymrwymadau i fioamrywiaeth ac amcanion amgylcheddol eraill yn rhai difrifol ac os, fel yr ydw i'n gobeithio'n fawr, y bydd mwy o ofyn am y cynllun Glastir yna byddwn yn sicr o ailystyried y dosraniad hwn o ariannu RhDG eto yn y dyfodol."

Mae RSPB Cymru'n cydnabod y cyfyngiadau a achosir gan lefel bresennol y sawl sydd wedi ymuno â Glastir ac yn pwysu ar y Llywodraeth i ddefnyddio'r arian amaeth-amgylcheddol a gaiff ei ryddhau gan yr ail-newid i sicrhau gwelliannau amgylcheddol drwy gyfrwng dulliau eraill nes bydd y bydd y sawl sy'n ymuno â'r cynllun yn defnyddio holl gyllideb wreiddiol amaeth-amgylcheddol. **Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Arfon Williams ar [arfon.williams@rspb.org.uk](mailto:arfon.williams@rspb.org.uk) neu ffoniwch 029 2035 3000.**

Am y newyddion ffermio diweddaraf a chynngor ymarferol, arwyddwch i dderbyn e-gylchlythyr ffermio'r RSPB ar [www.rspb.org.uk/farming](http://www.rspb.org.uk/farming)





## Uchafbwyntiau CGaFf 2012

Dyna i chi flwyddyn! Yma yng Nghymru rydym wedi gorfod wynebu amodau tebyg i lawer rhan arall o'r DU – gwlyb iawn, gwyntog ac oer, yr un ohonyn nhw'n ddelfrydol ar gyfer cynnal arolygon adar y ffermdir – nac ychwaith mae'n sicr i ffermio. Rhywsut neu'i gilydd, fodd bynnag, llwyddodd y tîm gwych o wirfoddolwyr y Gynghrair Gwirfoddolwyr a Ffermwyr (CGaFf) i osgoi'r tywydd gwaethaf a chwblhau bron i 40 o arolygon fferm yng Nghymru.

Yn ystod gwanwyn 2012 ymwelwyd unwaith eto â'r safleoedd lle rhoddwyd arolygon ar waith yn 2011. Roedd y

rhain yn hynod o bositif a darparwyd staff â chyfleoedd neilltuol i weld rhywfaint o waith gwych ffermwyr ledled Cymru. Hefyd, trafodwyd opsiynau a all fod o fudd i fusnes y fferm drwy gyfrwng y cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir.

Roedd pob fferm yn wahanol – ucheldir, iseldir, organig, masnachol, cig eidion, defaid a thir âr - ac roedd rhai o'r dulliau o gyfuno mesurau cadwraeth natur gyda busnes y fferm yn fentrus dros ben.

Ar gyfartaledd, cofnodwyd 38 rhywogaeth ar bob fferm. Y nifer

uchaf o rywogaethau a gofnodwyd ar un fferm oedd 60, gan gynnwys y gylfinir, y gornchwiglen, y gog, yr ehedydd, y gwybedog brith a mannog, y tingoch, bras y cyrs a'r fronfraith. Ymysg yr uchafbwyntiau eraill roedd gŵydd pen-streipiog ymysg haid o wyddau Canada, a llwyddodd un gwirfoddolwr i gwblhau arolygon ar dair fferm wahanol.

**Os hoffech wybod mwy am y project hwn neu os hoffech gael cyngor ar fywyd gwyllt ffermdir e-bostiwrch v&fa@rspb.org.uk neu ffoniwch 01248 672850.**

# Gwarchod adar ffermdir drwy gyfrwng y Cyfarwyddyd Adar

**Mae Cyfarwyddyd Adar 1979 yn darparu gwarchodaeth i holl adar gwyllt yr UE. Mae holl elfennau'r project a ariennir gan UE LIFE+ wedi cyfrannu at wella statws cadwraeth adar ffermdir, y grŵp o adar sy'n prnhau cyflymaf yn yr UE.**

Mae arolygon adar gan wirfoddolwyr wedi galluogi ffermwyr i wybod pa adar arbennig sydd i'w gweld ar eu ffermydd fel bod modd iddyn nhw addasu eu hymdrechion cadwraeth i'w gwarchod.

Mae'r cyngor dilynol wedi annog llawer o ffermwyr i ymuno â chynlluniau amaeth-amgylchedd a dargedwyd yn benodol at wella ansawdd cynefinoedd bywyd gwyllt ar y fferm. Mae'r Gwobrau Natur Ffermio, ymweliadau â ffermydd arddangos ac astudiaethau achos o ffermwyr sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt wedi codi ymwybyddiaeth o'r hyn all ffermwyr ei wneud, pam eu bod yn ei wneud a sut i wneud yn fawr o'u

hymdrechion. Mae'r adborth a gawn gan ffermwyr a gwirfoddolwyr yn ein helpu i benderfynu ar y dulliau gorau o fwrw ymlaen â'r gwaith hwn i'r dyfodol.

Mae'r RSPB yn credu bod y Cyfarwyddyd Adar yn allweddol er mwyn sicrhau bod y DU a'r UE yn chwarae eu rhan mewn dod â cholledion mewn bioamrywiaeth i ben erbyn 2020.

Felly beth yn union mae'n ei wneud?

- Mae gofyn i Wledydd sy'n Aelodau ddynodi Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar gyfer rhywogaethau mewn perygl a phob rhywogaeth o adar ymfudol.
- Bu i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 gadarnhau ac addasu deddfwriaeth oedd yn bodoli bryd hynny i weithredu'r Cyfarwyddyd Adar yng Ngwledydd Prydain. Gwaharddwyd gweithgareddau a oedd yn bygwth adar yn uniongyrchol, megis eu lladd yn

fwriadol, dinistrio eu nythod neu ddwyn eu hwyau.

- Sefydlwyd rheolau i gyfyngu ar y nifer o rywogaethau y gellir eu hela a'r cyfnodau y gellir eu hela er mwyn eu gwarchod yn ystod cyfnodau arbennig o fregus, megis yn ystod ymfudiad a'r tymor nythu. Hefyd, diffiniwyd rheolau dulliau o hela.
- Sefydlwyd Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau'r UE i helpu'r adar oedd mewn perygl mawr i adfer eu niferoedd.

Rhaglen LIFE yw cyfrwng yr UE o ariannu dros yr amgylchedd. Ar hyn o bryd ariennir ein projectau amaethyddol a'n gwaith cynghori gan LIFE+, sy'n codi ymwybyddiaeth o anghenion adar ffermdir a gweithrediad y Cyfarwyddyd Adar ymysg ffermwyr a'r cyhoedd. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan yr RSPB a chwiliwch am y Cyfarwyddyd Adar/Birds Directive.



Mae pob aderyn gwyllt, yn cynnwys y bras melyn, yn cael ei warchod gan y Cyfarwyddyd Adar





Dave Bateson

Mae ein bugail, sy'n gweithio gyda dau gi defaid, yn gallu rheoli hyd at 200 o ddefaid ar y mynydd

atal tân, yn ogystal â gwella cynefin bwydo i'r frân goesgoch a manau heulo i ymlusgiaid wrth greu manau agored o borfa fer.

### Y defaid

Pan roddwyd y project pum-mlynedd ar waith yn ôl yn 2009, cludwyd praidd o 55 o famogiaid Ynysoedd Heledd a Thorddu Cymreig i'r ardal. Dewiswyd y bridiau hyn oherwydd eu gwytnwch a'u gallu i ffynnu ar llystyfiant llai maethlon y rhostir. Hefyd, mae'r defaid Ynysoedd Heledd chwim yn tueddu i ffurfio praidd cryno ac mae'r Torddu trymach yn eu harafu. Mae maint y praidd wedi tyfu i oddeutu 200 o famogiaid, yn cynnwys defaid gwynebdu'r Alban, mynydd Cymreig, lochtan Manaw a Thorwen.

Mae'r mamogiaid yn pori am 40 diwrnod dros gyfnod o wyth wythnos, o fis Medi ymlaen fel arfer, pan nad oes llawer i aflonyddu arnyd nhw a phan fo amodau'r tywydd yn ffafriol. Mae'r defaid yn pori'r mynydd am oddeutu wyth awr y dydd. Fe'u cedwir mewn llociau bach dros nos ac mewn padogau dros y penwythnos. Saif y

lleiniau bach caeedig traddodiadol ar gyrion y tir mynydd. Nid oes yno gymaint o borfa ar gael, ac mae hyn felly'n annog y defaid i bori planhigion llai blasus y mynydd yn ystod y dydd.

### Y bugail

Un o elfennau pwysicaf y project yw'r bugail. Fe all un bugail penodedig sy'n gweithio gyda dau gi defaid reoli hyd at 200 o ddefaid ar y mynydd. Pob bore mae'r defaid yn cael eu symud i'r mynydd o'r lleiniau neu'r padogau. Mae'r bugail yn dilyn yr anifeiliaid ac yn caniatáu iddyn nhw bori, o fewn rheswm, wrth ddilyn eu trwynau.

Wrth eu cadw mewn praidd tynn, a phori rhyw un neu ddau hectar ar y tro, maen nhw'n cael eu hebrwng yn araf ar draws y rhostir. Mae hyn yn sicrhau nad ydyn nhw'n gorbori'r manau mwy bwyttadwy ac yn eu cadw oddi wrth gyrion clogwyni a ffyrdd. Mae llawer o'r ymwelwyr sy'n galw heibio'r ynys wrth eu bodd yn gweld y bugail wrth ei waith ar y mynydd, ac mae hyn hefyd yn darparu'r cyfle perffaith i egluro i bobl beth yw cefndir y project.

### Y canlyniadau ... hyd yma!

Mae'r 40 diwrnod o bori wedi eu cyflawni'n llwyddiannus bob blwyddyn gydag ychydig iawn o gymhlethdodau. Ychydig o effaith gafwyd gan y praidd cyntaf o 55 o famogiaid ar y llystyfiant, felly dyna pam rydym wedi cynyddu maint y praidd yn raddol. Rydym eisoes yn gweld bod y praidd mwy'n dechrau cael effeithiau positif.

Mae gan y gwahanol fridiau ddulliau gwahanol o bori. Er enghraifft, mae defaid wynebdu'r Alban yn fodlon iawn wrth bori'r grug toreithiog, ond mae'n well gan ddefaid Ynysoedd Heledd y manau sy'n adfer yn dilyn tân. Bydd effaith y pori'n cael ei asesu ar ddiwedd y project. Fodd bynnag, os ydym am sicrhau ein bod yn gwireddu ac yn cynnal dosbarthiad cyflwr ffafriol i'r safle hwn, bydd raid i ni barhau â'r gwaith rheolaeth am flynyddoedd lawer i ddod.

**Os hoffech wybod mwy am y bugeilio a'r pori, e-bostiwch [dave.bateson@rspb.org.uk](mailto:dave.bateson@rspb.org.uk)**

## Pori'n agos gyda bugail ar Fynydd Twr

Er mwyn ateb yr angen i leihau'r llystyfiant ar Fynydd Twr ger Caergybi oherwydd rhesymau cadwraethol, penderfynodd yr RSPB ddefnyddio'r dull mwyaf naturiol o wireddu hyn – daethpwyd â praidd o ddefaid i'r ardal.

Mynydd Twr yw'r copa uchaf ar Ynys Gybi, Caergybi. Gyda'i lethrau serth, sy'n cwmpo i Fôr Iwerydd, saif y Mynydd dri chilometr i'r gorllewin o Gaergybi ac mae'n ffurfio rhan o warchodfa natur Clogwyni Ynys Lawd yr RSPB.

Dynodwyd y rhostir hwn o 200 hectar yn SDdGA. Wedi degawdau heb ei bori, fe'i dosbarthwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) fel llecyn mewn cyflwr anffafriol. Roedd hyn wedi digwydd oherwydd, wrth i'r pori ddod i ben, roedd y llystyfiant wedi tyfu'n unffurf (un strwythur oedran) ac roedd gwasarn wedi ymgasglu. Wrth i'r llystyfiant a'r gwasarn yma grynhwyo roedd y risg o dân ar raddfa eang yn cynyddu, a chafwyd amryw o dannau mawr sydd wedi peri difrod i'r safle a'i fywyd gwyllt.

### Y syniad

Mae pori agos gyda bugail wedi ei ddefnyddio ar lond llaw o safleoedd yn y DU lle nad yw'r ffiniau yn cadw allan da byw a lle nad oes praidd â chynefin. Sefydlwyd grŵp gwaith gan yr RSPB a CCGC gyda Phartneriaeth Anifeiliaid Pori Ynys Môn a pherchnogion y safle, Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM). Archwiliodd y grŵp hwn a fyddai pori agos â bugail yn strategaeth gall ar Fynydd Caergybi. Y syniad oedd rhoi'r rheolaeth bori ar waith heb yr angen am ffensio hyll a drud. Bu'n rhaid i ni ystyried materion eraill hefyd: anifeiliaid yn crwydro, gwrthdaro rhwng ymwelwyr a defnyddwyr ffyrdd, a'r posibilrwydd o golli stoc oddi ar y clogwyni serth. Teimlai bawb a oedd yn cymryd rhan bod y dull hwn yn ymarferol a sicrhawyd arian CCGC i GSYM a'r RSPB drwy gyfrwng cytundeb S15. Amcanion y cytundeb oedd gwella cyflwr y rhostir sych a'r amrywiaeth o blanhigion a phryfed, a lleihau'r risg o dân drwy glirio gorlystyfiant a sefydlu strimynnau



Dave Bateson

Mae'r defaid yn cael eu hebrwng yn araf ar draws y rhostir i osgoi gorbori unrhyw leiniau



# GWOBR NATUR FFERMIO CYMRU 2012

## Enillydd 2012 John a Tegwen Burns

*Fferm Penlan, Cydweli*

Saif fferm Penlan, fferm gymysg o 180 hectar o iseldir, uwchben tref Cydweli a Bae Caerfyrddin. Cafodd y fferm Gymeradwyaeth Uchel gan GNFF yn 2001, gan brofi bod modd i ffermio masnachol a chadwraeth gyd-fyw.

Mae'r perchnogion John a Tegwen Burns a'u tîm yn tyfu cynydau ar gyfer ystod bwyd anifeiliaid anwes fferm Penlan gan y chwaer gorff Burns Pet Nutrition Ltd. Wrth dyfu'r cynhwysion sicrheir ansawdd, mae'n arbed costau mewnforio, ac yn lleihau milltiroedd bwyd. Maen nhw'n hybu hyn, er enghraifft, daw cynnwys startsh y bwyd o reis a fewnforir. Ym Mhenlan maen nhw'n tyfu ac yn dadansoddi amrywiaeth o datws i chwilio am ffynhonnell addas o startsh i'w tyfu eu hunain. Hefyd, gwerthir y gwair o ddolydd llawn rhywogaethau, hafan i bob math o adar a gwenyn, fel y gwair gorau ar gyfer cwningod.

Rheolir y coedlannau a'r gwrychoedd yn sensitif er budd amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid. Wrth ailgyflwyno cynydau â'r fe all planhigion â'r prin egino. Cynhyrchir 'priciau-cnoi' mewn lleiniau o goed cyll a helyg ar gyfer llygod sy'n anifeiliaid anwes ond, wrth i'r lleiniau aeddfedu, cânt eu rheoli i ddarparu cynefin ychwanegol i blanhigion blodeuol, gloynnod byw ac adar.

Mae fferm Penlan yn ceisio cyngor gan nifer o gyrrf gwahanol, a bob amser yn chwilio am ddulliau o ymgorffori elfennau cyfeillgar i fywyd gwyllt yn eu system reoli. Yn dilyn cyngor yn ystod proses feirniadu GNFF 2011, mae ymdrechion ar y gweill erbyn hyn i bori'r porfeydd parhaol yn eang. Cludwyd gyrr bach o wartheg gwynion Cymreig yma i gynorthwyo gyda'r gwaith; gan fod y gwartheg yma'n brin iawn, rhoddwyd hwb i'r brîd hefyd.



Mae amon angen cydnabod dwy fferm arall hefyd. Er mai Penlan a enillodd, roedd y panel beirniadu'n teimlo bod y ddwy fferm yma'n haeddu statws Cymeradwyaeth Uchel fel ail wobwr.

## Fferm Troedrhiwdrain Brian a Sorcha Lewis

Fferm ddefaid ar yr ucheldir yw Troedrhiwdrain yn Nyffryn hardd yr Elan. Mae rheolaeth sensitif o gynefinoedd, megis dolydd gwair cyfoethog yr ucheldir, fridd, a phorfa rhos yn cael eu hintegreiddio i'r ymarferion ffermio.

Mae monitro poblogaeth y gliradain Gymreig ar y fferm a rheoli manau er budd y gronnell yn enghreifftiau o'r gwaith a wneir y tu hwnt i reolaeth ddyddiol y fferm.



## Fferm Glyn-Coch Huw a Thelma Jones

Saif fferm fechan Glyn-Coch ar gyrion San Clêr, Sir Gaerfyrddin.

Mae'r tenantiaid wedi ymgorffori cynnyrch y fferm a bywyd gwyllt i'w menter canolfan grefft. Defnyddir cnu praid o ddefaid Corniog Norfolk yn y cynnyrch crefft a lluniwyd llwybrau bywyd gwyllt i dywys pobl drwy amrywiaeth o gynefinoedd.

Maen nhw hefyd yn rheoli manau er budd y planhigyn sirol prin, y garwy droellennog, ar y fferm.



Mae'r cwtiad aur yn aderyn prin sy'n nythu yng Nghymru, ond gobeithir y bydd ei nifer yn cynyddu'n dilyn rheolaeth ffafriol

## Cadwraeth y cwtiad aur ar Elenydd a Rhiwabon yn 2011 a 2012

Mae'r cwtiad aur yn rhywogaeth eiconig ar ucheldir Cymru. Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod poblogaeth o 37 pâr yn nythu, yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg Cymru Gyfan yn 2007. Mae oddeutu traean o boblogaeth Cymru o'r cwtiad aur yn nythu ar Elenydd, ac felly mae'n safle pwysig. Mae wedi elwa o waith adfer, megis rheolaeth Molinia a phori dilynol wrth ddefnyddio amrywiaeth o dda byw. Rhoddwyd y gwaith hwn ar y gweill a'i reoli gan y partneriaid allweddol: Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG), CCGC ac Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

Amcan y project cwtiad aur yw cyfuno adferiad mawn, Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac adfer cynefin SDdGA. Bydd y cwtiad aur yn elwa o ganlyniad y rheolaeth hon. Mae'r RSPB wedi darparu arweiniad rheolaeth a chefnogaeth ac wedi ymgymryd â gwaith monitro adar a llystyfiant. Dengys hyn fod yr adar yn defnyddio'r rhannau a reolir ar gyfer nythu ac fel manau bwydo i oedolion a chywion. Mae canlyniadau cynnar yn awgrymu bod y cwtiad aur wedi ymateb yn ffafriol i'r rheolaeth gynefin. O ganlyniad i'r arwyddion yma bod y cwtiad aur yn ymateb i reolaeth

gynefin ar yr Elenydd, hyrwyddwyd gennym reolaeth ffafriol ar Rostir Rhiwabon yng ngogledd ddwyrain Cymru. Dewiswyd yr ardal hon oherwydd roedd y cwtiad aur yn nythu yma ar un pryd. Yn 2012 rhoddwyd y drefn newydd ar waith, wrth gydweithio'n agos gyda Stad Wynnstay â CCGC, wrth dorri lleiniau mawr o rug i greu'r strwythur llystyfiant y mae ei angen ar y cwtiad aur.

Defnyddiwyd yr ardal fel safle nythu gan o leiaf un pâr yn 2012, a chredir eu bod wedi llwyddo i fagu cywion. Rydym yn disgwyl parhau â gwaith rheolaeth ymhellach yn 2013.

Mae arolygon yn awgrymu bod y cwtiad aur yn defnyddio'r manau a reolir. Mae'n ymddangos bod y gwaith o reoli'r cynefin wedi denu'r cwtiaid ac o ganlyniad mae potensial i hybu niferoedd y boblogaeth. Byddwn yn parhau i arolygu'r Elenydd a Rhiwabon, a gobeithir y bydd y llwyddiant cynnar hwn yn parhau i fod o fudd i un o adar harddaf ucheldir Cymru. **E-bostiwch Amy Vanstone ar amy.vanstone@rspb.org.uk am ragor o wybodaeth.**

I ymgeisio gyda'ch fferm yn 2013 ffoniwch 01767 680551 neu ewch i [www.rspb.org.uk/farming](http://www.rspb.org.uk/farming)



# Chwynn tir âr – neu hoff flodau ein diwylliant?

Mae llawer o blanhigion tir âr yn rhan o'n hanes diwylliannol. Er enghraifft, byddai'r rhan fwyaf ohonom yn colli gwawr goch y pabi neu'r gymysgedd o liwiau ar gyrion lonydd cefn gwlad yng nghanol yr haf pe baen nhw'n diflannu. Er bod rhai planhigion yn cael eu galw'n chwyn, mae eraill yn arbennig ac mewn perygl. Mae planhigion nodweddiadol caeau yd Cymru a ddatblygodd o ganlyniad i'n hinsawdd dyner a gwlyb bellach yn bwysig yn rhyngwladol ac yn prysur brinhau.

Mae blodau'r caeau yd wedi prnhau wrth i dir âr ddiflannu. Bellach, dim ond 11% o dir Cymru sy'n cael ei drin, colled o 106,400 hectar ers 1970. Mae'r defnydd cynyddol o chwynladdwyr i reoli chwyn, ynghyd â gwrteithiau i hybu twf grawn, wedi cyfyngu twf planhigion âr. Mewn caeau bach, cuddiedig, mae lliwiau hyfryd melyn yr yd a'r pabi i'w gweld hyd heddiw ond mae planhigion Cymreig prin eraill fel y gludlys amryliw, blodyn-yemenyn yr yd, gwylaeth-yr-oen llydanffrwyth a glas yr yd yn prnhau fwyfwy.

Nid yw hi'n rhy hwyr, fodd bynnag. Mae technegau rheolaeth syml yn bodoli sy'n galluogi planhigion âr i dyfu un ai o fewn pentiroedd grawn, ledled caeau cyfan neu

mewn ymylon braenar a dorrrir bob blwyddyn. Gellir gweithredu'r mesurau hyn yn wirfoddol drwy beidio â chwistrellu ymylon a chorneli caeau grawn gyda chwynladdwyr a'u gadael heb eu cynaeafu. Cefnogir hyn yn ariannol drwy gyfrwng y cynllun Glastir.

Mae blodau caeau yd yn bwysig i ystod eang o fywyd gwyllt arall y ffermdir. Defnyddir eu neithdar a'u pail gan gacwn, gloynnod byw, pryfed hofran a pheillwyr eraill, ac mae eu hadau'n fwyd i adar y ffermdir fel yr ehedydd a'r bras melyn.

Mae cymunedau arbennig o gyfoethog o blanhigion âr i'w cael ar ffermydd yn Sir Fynwy, Bro Morgannwg a Phenrhyn Gŵyr, Sir Benfro, Ceredigion a Phenrhyn Llŷn.

**Mae taflen newydd gan Plantlife gyda manylion rheolaeth ar ran blanhigion âr yn cynnwys y dewisiadau perthnasol yn Glastir ar gael i'w lawr lwytho ar [www.plantlife.org.uk/wales](http://www.plantlife.org.uk/wales) neu cysylltwch â [cath.shellswell@plantlife.org.uk](mailto:cath.shellswell@plantlife.org.uk) am gopi.**

# Cymorth i linos y mynydd

**Anaml iawn y bydd rhywun yn sylwi ar linos y mynydd, un o'r pincod bach mwyaf di-nod, gyda'i streipiau brown a'i alwad trwynol. Hefyd, yn ogystal â'i gwarchodliw, credir nad oes ond rhwng 14 ac 17 o barau yng Nghymru, ac mae'r rhain wedi eu cyfyngu i Nant Ffrancon a Dyffryn Ogwen yng ngogledd Eryri.**

Yn ystod yr haf bydd llinosiaid y mynydd yn ymweld â'u llecynnau nythu ar ucheldir Cymru. Er nad ydym yn sicr, mae ymchwil yn awgrymu eu bod yn treulio'r gaeaf ar gynefin morfa heli a thraethlin arfordir gogledd Cymru ac Aber Dyfrdwy.

Mae eu nifer wedi prnhau'n raddol yng Nghymru, mae'n debyg oherwydd bod eu bwyd, sef hadau, wedi prnhau o ganlyniad i newidiadau mewn rheolaeth tir. O ganlyniad i golledion o ran dolydd gwair traddodiadol a chynaeafu tir â'r traddodiadol, a llai o wartheg yn treulio'r

gaeaf yn yr awyr agored, mae llai o fwyd ar ffurf hadau ar gael drwy gydol y flwyddyn. Yn anghyffredin ym myd y pincod, mae'r oedolion a'r cywion yn bwydo'n gyfan gwbl ar hadau bach, felly maen nhw'n dibynnu ar gyflenwad da, yn enwedig hadau dant y llew, peradyl, suran a gweunwellt unflwydd.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae partneriaeth rhwng yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'u ffermwyr denantiaid, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, CCGC a'r BTO wedi bod yn gweithio yn y ddau brif ddyffryn sy'n cynnal yr adar yma. Nod y bartneriaeth ydy darparu bwyd ychwanegol ar ffurf hadau, yn enwedig hadau duon bach, yn ogystal â sefydlu cynefin llawn hadau fel dolydd gwair a reolir yn draddodiadol a chnydau gwraidd llawn hadau.

Mae'r hadau duon bach yn arbennig o bwysig oherwydd maen nhw'n helpu

llinosiaid y mynydd i gyrraedd cyflwr magu ar ôl iddyn nhw ddechredu i Eryri ar ddechrau Ebrill. Dyna pryd y mae ffynonellau naturiol o hadau yn hynod o brin.

Mae arwyddion cynnar y gwanwyn eleni'n awgrymu bod yr adar yma'n ymateb yn dda i'r rheolaeth, gan fod mwy o linosiaid y mynydd nag arfer wedi cyrraedd yn ôl ar eu llecynnau nythu ac wedi bwydo ar yr hadau duon bach a gweddillion cnwd gwraidd llawn chwyn a reolir yn arbennig ar eu cyfer.

Wrth i'r gwaith monitro barhau gobeithiwn y bydd arolwg nythu llawn yn 2013 yn ein darparu â mwy o wybodaeth am eu statws presennol. Byddwn yn siŵr o adael i chi wybod!

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Lesley Fletcher ar [lesley.fletcher@rspb.org.uk](mailto:lesley.fletcher@rspb.org.uk)**

Mae blodau caeau yd wedi prnhau yng Nghymru

RSPB

# Lle i fyd natur ochr yn ochr â chynhyrchu llaeth

**Y gwanwyn hwn rhoddwyd project ar waith gyda rhai o'r ffermwyr llaeth sy'n cyflenwi Tesco. Ein nod yw dod o hyd i ddulliau ymarferol y gall ffermwyr eu cynnwys yn eu systemau i gynorthwyo bywyd gwyllt.**

Yn gyntaf arolygwyd adar ar ffermydd drwy'r GGF. Wedi i ni gael gwybod pa adar sydd ar y fferm, gallwn ymweld â'r ffermwr fel bod modd i ni gytuno ar ddewisiadau rheolaeth tir posibl.

Proses dwyffordd fydd hon: rydym yn cynhyrchu syniadau'n seiliedig ar anghenion y bywyd gwyllt sy'n byw yno, ac yn gwrandao ar farn ffermwyr ynglŷn â chynnwys y syniadau yn eu systemau nhw.

Mae'r sector llaeth yn gosod cryn her o ran cynnwys mesurau sy'n helpu bywyd gwyllt. Mae creu gofod ar gyfer

byd natur o fewn y llain a amaethir, yn enwedig o fewn glaswelltir, yn arbennig o anodd: mae hi'n anochel, wrth ganolbwyntio ar gynhyrchiant uchel ac effeithiolrwydd, nad oes cymaint ar ôl ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae llai o ddewisiadau ar gael o fewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar gyfer ffermwyr llaeth, ac mae'r pwysau economaidd wedi bod yn drwm iawn dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae ffermwyr llaeth wedi bod yn prnhau yn ogystal â bywyd gwyllt y fferm. Yn y ddeng mlynedd ddiwethaf yn unig, mae'r nifer o ffermwyr llaeth wedi haneru yng Nghymru a Lloegr, ac wedi cwmpo o draean yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Serch hynny, mae ein staff cynghorol o amgylch y DU wedi gweithio gyda llawer o ffermwyr llaeth sydd wedi

gwneud pob ymdrech i helpu bywyd gwyllt ochr yn ochr â gweithredu mentrau llaeth: ffermwyr fel Robert Kynaston o Swydd Amwythig a gyrhaeddodd rownd olaf GNFF y llynedd. Byddwn yn adeiladu ar brofiadau'r ffermwyr hyn wrth ddatblygu ein gwaith parhaol gyda'r sector llaeth.

Mae'r project hwn yn rhan o bartneriaeth newydd rhwng yr RSPB a Tesco o'r enw Gyda'n Gilydd dros Goed. Ei nod yw lleihau ôl-troed amgylcheddol nwyddau o goedwigoedd trofannol, yn ogystal â sicrhau bod cadwyni cyflenwadau yn fwy cynaliadwy.

**Os hoffech gael mwy o fanylion, cofiwch e-bostio Gethin Davies ar [gethin.davies@rspb.org.uk](mailto:gethin.davies@rspb.org.uk)**



# Cyngor mewn sioeau amaethyddol yn 2013 ac ar-lein

Dyma restr o rai o'r sioeau amaethyddol a'r digwyddiadau y byddwn yn eu mynychu ledled y DU yn 2013. Bydd staff ar gael i ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â chadwraeth bywyd gwyllt. Cofiwch alw draw i'n gweld.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, ewch i [www.farmwildlife.info](http://www.farmwildlife.info) oherwydd mae'r wefan hon yn cynnal fforwm drafodaeth i ofyn cwestiynau neu bostio syniadau, astudiaethau achos ffermwyr sy'n mabwysiadu rheolaeth newydd i hybu bywyd gwyllt ar eu fferm a chalendr o ddigwyddiadau amaethyddol ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt y ffermdir.

- Sioe Balmoral, Parc Balmoral, Maze Long Kesh, Lisburn 15–17 Mai
- Cereals, Boothby Graffoe, Swydd Lincoln 12–13 Mehefin
- Sioe Frenhinol yr Ucheldir, Canolfan Frenhinol yr Ucheldir, Caeredin 20–23 Mehefin
- Livestock 2013, NEC, Birmingham 3–4 Gorffennaf
- Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, ger Llanfair-ym-Muallt 22–25 Gorffennaf

# Dyddiau hyfforddi'r RSPB

Pob blwyddyn, mae'r RSPB yn cynnal cyrsiau hyfforddi er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf i fywyd gwyllt o ganlyniad i Warchodaeth Amgylcheddol ar ffermdir â'r ffermydd da byw.

Cynhelir cyrsiau ar "Sut all ffermio da byw ateb anghenion bywyd gwyllt ffermdir" yn y lleoliadau canlynol:

- Fferm Great Wollaston, Swydd Amwythig 24 Ebrill 2013
- Duchy College, Cernyw Hydref 2013 (i'w gadarnhau)

Am fanylion y cyrsiau, ewch i [www.rspb.org.uk/conservationtraining](http://www.rspb.org.uk/conservationtraining)

# Ceisio profi a yw ffermio sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt yn gwneud gwahaniaeth

Dros y 13 blynedd diwethaf, mae'r GGAff wedi cyflawni llawer o ran helpu ffermwyr i adnabod yr adar ar eu fferm sydd angen ein cymorth. Wrth edrych ymlaen, rydym yn ceisio datblygu rôl gwylwyr adar gwirfoddol fwyfwy drwy fonitro ffermydd sy'n rhoi rheolaeth gadwraethol ymarferol ar waith er mwyn asesu pa wahaniaeth y mae eu hymdrechion yn ei wneud i'r poblogaethau o adar.

Yn 2102 rhoddwyd dull newydd o arolygu ar waith ar wyth o ffermydd llaeth. Gellir ailadrodd hwn sawl blwyddyn yn ddiweddarach i werthuso a yw poblogaethau rhywogaethau allweddol y ffermdir wedi newid.

Ymysg y gwirfoddolwyr roedd Richard Winspear. Meddai: "Gwirfoddolais i arolygu fferm yn Swydd Gaerlŷr ac, fel bob amser, roedd y profiad o wirfoddoli'n hynod o werth chweil. Roedd y dull o arolygu yn golygu dipyn bach mwy o waith, sef pedwar ymweliad a thaith gerdded o fewn 100 metr i bob

pwnt yn y llecyn arolwg. Rydym yn ceisio mireinio'r dull cyn ei hybu ymhellach gan obeithio y gallwn gwtogi ar yr amser arolygu i oddeutu pedair awr i bob ymweliad. Doeddwn i ddim wedi disgwyl y byddai'r fferm mor dda o ran adar yn nythu, fel y betrisen, y siglen felen, golfan y mynydd a bras yr ŷd. Mae breision yr ŷd yn brin yn y Canoldiroedd erbyn hyn, a mwy neu lai wedi diflannu o amgylch fy nghartref yn ne Sir Derby lai na 10 milltir i ffwrdd. Roedd y golfan y mynydd yn nythu mwy neu lai ym mhob coeden onnen o amgylch y fferm. Mae'r ffermwr eisoes yn y cynllun Gwarchodaeth Lefel Uwch (HLS) ond roedd yn awyddus iawn i ddysgu mwy am yr adar ar ei fferm er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cytundebau yn y dyfodol."

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Richard Winspear ar [richard.winspear@rspb.org.uk](mailto:richard.winspear@rspb.org.uk)

# Gwyllo Adar yr Ardd yn llwyddiant

Diolch i bawb a gamodd 'mlaen dros natur drwy gymryd rhan yn arolwg Gwyllo Adar yr Ardd eleni. Cynhelir yr arolwg bellach ers 33 o flynyddoedd, a dyma'r arolwg ail fwyaf erioed, gyda'r nifer anhygoel o 592,475 o bobl yn cymryd rhan. Gwelwyd dros naw miliwn o adar o 73 rhywogaeth wahanol dros benwythnos yr arolwg.

Ar frig y rhestr am y nawfed flwyddyn yn olynol mae aderyn y to. Fodd bynnag, mae eu niferoedd llawer yn is nag yr oedden nhw ar gyhwyn yr arolwg yn ôl yn 1979. Fe'u gwelwyd mewn dros 60% o erddi, gyda phedwar ym mhob gardd ar gyfartaledd, o'i gymharu â 10 ym mhob gardd yn 1979.

Mae'r titw tomos las wedi goddiweddyd y fwyalchen yn y trydydd safle, gyda chynnydd drwyddo draw o 21% ers 1979. Mae'r nico hefyd wedi dringo un safle eleni i rif saith. Mae'r aderyn lliwgar hwn wedi bod yn cynyddu'n raddol yng ngerddi'r DU gan gyrraedd y deg uchaf am y tro cyntaf yn 2008.

Dengys canlyniadau eleni hefyd bod y nifer o ddrudwennod yn is nag ar unrhyw gyfnod arall ers rhoi'r arolwg ar waith. Mae'r ddrudwen wedi prinhaus o bron i 80% dros y 25

mlynedd diwethaf. Yn 1979, roedd y nifer o ddrudwennod yng ngerddi'r DU yn 15 ym mhob gardd ond eleni, cwmpodd y nifer i'r isaf erioed gyda dim ond tair drudwen yn cael ei gweld ym mhob gardd ar gyfartaledd.

Mae'r prinhad hwn yn digwydd ledled llawer o ogledd Ewrop hefyd, ac oherwydd y gostyngiad hwn yn eu nifer, mae'r rhywogaeth ar y rhestr goch fel aderyn o bryder cadwraethol uchel. Rydym wedi bod yn monitro'r prinhad hwn ac mae ymchwil eisoes ar y gweill i wybod mwy am ddiplaniad yr adar yma. Ymysg y rhesymau posibl mae newidiadau yn eu cynefinoedd bwydo a newidiadau o dan wyneb y pridd sy'n lleihau faint o bryfed sydd ar gael iddyn nhw eu bwyta.

Ar ôl gaeaf anghyffredin o gynnes ledled llawer o'r DU, roedd llawer o bobl yn sylwi nad oedd cymaint o adar i'w gweld yn eu gerddi ar ddiwedd mis Ionawr. Mae ein hadar gardd yn llawer llai dibynnol arnom ni am fyw pan mae digonedd o aeron, pryfed a hadau iddyn nhw eu bwyta yng nghefn gwlad.

Yn 2013, mae arolwg Gwyllo Adar yr Ardd yn digwydd dros benwythnos 26 a 27 Ionawr 2013. Cofiwch ymuno â ni i'w wneud yn fwy fyth!

# Fe all cynlluniau amaeth-amgylcheddol arafu prinhad adar ffermdir

Bellach rydym yn gwybod pa fesurau ymarferol cyffredin ar ffermdir sy'n gallu cael yr effaith fwyaf o ran cynyddu nifer adar ffermdir, diolch i'r ymchwil ddiweddaraf.

Ar ôl dyfalu'r rhesymau dros brinhad adar a dod o hyd i atebion ymarferol i ddod â hyn i ben, mae gennym bellach atebion i'w cynnig. Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol ledled y DU eisoes yn darparu mesurau eithaf cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r prinhad yn adar ffermdir.

Erbyn hyn mae ymchwil yn edrych ar ba mor effeithiol yw'r mesurau hyn o'u mabwysiadu ar raddfa'r tirlun gan ffermwyr drwy gyfrwng y cynlluniau hyn.

Eisoes rydym wedi gweld buddion amlwg gweithredu wedi ei dargedu'n fanwl o ran rhywogaethau prin fel y rhegen yr ŷd yn Yr Alban a bras Ffrainc yn Nyfnaint, ond ychydig o dystiolaeth a gafwyd o fuddion cynlluniau lefel mynediad o

ran ein hadar ffermdir mwy eang eu dosbarthiad. Dengys ymchwil newydd gan y BTO bod adar sy'n bwyta hadau, fel y betrisen, yn ffynnu yn Lloegr lle mae ffermwyr yn gadael sofr dros y gaeaf neu'n creu cymysgeddau o hadau adar gwyllt drwy gyfrwng Gwarchodaeth Lefel Mynediad.

Ymysg mesurau eraill a roddwyd ar brawf roedd glaswelltir mewnbwn-isel, sribynnau rhagod, rheolaeth gwrychoedd a rheolaeth ffosydd. Ni ddangoswyd buddion amlwg gan y mesurau hyn o ran adar sy'n prinhaus, mae'n debyg oherwydd nad ydyn nhw'n mynd i'r afael ag achosion y prinhad yn uniongyrchol. Mae angen bwyd ar ffurf hadau ar yr adar yma drwy gydol y gaeaf, bwyd ar ffurf pryfed yn y gwanwyn a manau diogel i nythu.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Richard Winspear ar [richard.winspear@rspb.org.uk](mailto:richard.winspear@rspb.org.uk)

Am gyngor arbenigol uniongyrchol ewch i [www.farmwildlife.info](http://www.farmwildlife.info)



# 10 mlynedd o Sefyllfa Adar yng Nghymru

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn am y tro cyntaf yn 2002 fel ffynhonnell gynhwysfawr o ffeithiau a ffigurau cadwraeth adar ar gyfer aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gweision sifil, llywodraeth leol a gwylwyr adar. Mae ei “ben-blwydd” yn digwydd yr un pryd â 10fed pen-blwydd rhestr Llywodraeth Cymru o Brif Rywogaethau Bioamrywiaeth. Ar y rhestr hon mae dros 560 rhywogaeth o fywyd gwyllt, yn amrywio o famaliaid i gen. Fe’u dewiswyd yn ôl eu pwysigrwydd a’u statws yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Mae’r rhestr yn cynnwys rhywogaethau sydd â’r flaenoriaeth uchaf o ran gweithredu gadwraethol.

Mae degawd yn ddigon i ystyried canlyniadau mesurau cadwraeth. Felly mae’r adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2012, yn bwrw golwg yn ôl ar y degawd diwethaf ac yn amlgyu llwyddiannau a methiannau, yn ogystal â gweld pa wersi y gellir eu dysgu.

Mae’n sicr mai’r rugiar ddu yw’r llwyddiant pennaf. Lanswyd mesurau cadwraeth drwy gyfrwng project partneriaeth yn 1997, pan nad oedd ond 126 o geiliogod yn arddangos eu hunain. Y llynedd, roedd dros 300. Mae rhywogaethau eraill wedi defnyddio cynefinoedd a grëwyd gan fentrau tebyg. Er enghraifft, mae’r bras melyn yn bwydo ar gnydau o hadau’r gaeaf ac mae llinos y mynydd yn bwydo mewn mannau lle mae porfeydd o laswelltir llawn hadau wedi eu hadfer ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid oes gennym dystiolaeth bod maint y boblogaeth wedi cael hwb o ganlyniad i’r dulliau yma.

Pe baem yn gallu edrych ymlaen i adroddiad tebyg yn 2022, mi fyddai’n wych pe baem yn gallu darllen bod llawer o fentrau fel yr uchod wedi llwyddo, a bod y prinhad mewn poblogaethau wedi ei arafu neu ei wrthdroi. Bydd raid i ni barhau i weithio i sicrhau hyn!

Gallwch e-bostio Ian Johnstone ar [ian.johnstone@rspb.org.uk](mailto:ian.johnstone@rspb.org.uk) am fwy o wybodaeth.

## Hanes y frân goesgoch

Mae’n siŵr bod y frân goesgoch yn un o adar mwyaf deniadol Cymru. Oherwydd ei phig a’i choesau coch llachar, ei galwad amlwg a’i dull arbennig o hedfan, nid yw’n anodd gwahaniaethu rhwng hon ag aelodau eraill o deulu’r frân. Mae gan y frân le blaenllaw yn niwylliant Celtaidd, oherwydd credai rhai bod y Brenin Arthur wedi dychwelyd ar ffurf brân goesgoch.

Wrth fwydo ar gynefinoedd a borir yn cynnwys porfeydd parhaol, glaswelltiroedd arfordirol heb eu gwella, a rhostir arfordirol, bydd yr adar yma’n defnyddio eu pigau i dyrchu am bryfed a’u larfau un ai ar wyneb y pridd neu ychydig o dan yr wyneb, neu mewn baw anifeiliaid. Ambell dro mae’r adar yn ychwanegu at y bwyd yma ar ffurf pryfed wrth fwydo ar rawn wedi ei adael ar ôl mewn caeau sofrl yn y gaeaf.

Mae brain coesgoch yn creu eu nythod mewn ogofeydd neu gilfachau ar glogwyni neu mewn chwareli, felly fe’u gwelir yn bennaf o amgylch arfordir Cymru. Mae’r cyfuniad o safleoedd nythu addas, rhostir arfordirol a phorfa fer yn agos at eu nyth yn ateb eu holl anghenion.

Adeiledir eu nyth o frigau mân wedi ei leinio â gwllân ar silff gysgodol. Yr iâr sy’n eistedd ar yr wyau, rhwng 3 a 5 fel arfer, a bydd y ceiliog yn dychwelyd yn aml i fwydo ei gymar.

Prinhaodd y frân goesgoch a chrebachodd ei dosbarthiad drwy gydol y 19eg ganrif, a chafwyd rhywfaint o adferiad yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Yn ôl arolygon systemataidd ar ôl yr 1950au, a’r mwyaf diweddar yn 2002, cafwyd adferiad pellach, megis ei dychweliad i Ynys Môn a Phenrhyn Gŵyr. Felly rydym yn hynod o bryderus o ddeall bod arwyddion o

brinhad o’r newydd. Mae’r adar wedi diflannu o rai safleoedd nythu i mewn i’r tir ac mae’n fwyfwy anodd dod o hyd i’r heidiau o adar ifanc sydd mor bwysig – yr adar ifanc yma yw’r rhai a fydd yn cymryd lle’r parau o oedolion sy’n nythu ar hyn o bryd.

### Allwch chi helpu’r frân goesgoch?

- Aflonyddu cyn lleied â phosibl ar safleoedd nythu addas (chwareli, mwynfeydd a hen adeiladau) a sicrhau nad yw llystyfiant yn rhwystro mynediad.
- Cynnal porfeydd llawn pryfed, cadw’r borfa’n agored ac yn fyr drwy drefnweithiau pori addas, lleihau’r defnydd o wrtaith a pheidio â niweidio twmpathau morgrug.
- Cynnal rhostir mewn cyflwr eithaf agored, a chadw unrhyw leiniau o laswelltir o fewn y rhostir yn fyr.
- Rheoli rhedyn a phrysgwydd os yw wedi lledaenu i safleoedd bwydo addas a chynnal lloches o lai na 10%.
- Cadw sofrl gaeaf grawn a heuir yn y gwanwyn os ydyn nhw o fewn 1 cilometr i safle clwydo neu nythu.
- Sefydlu, cynnal neu drwsio ffiniau caeau o garreg neu bridd. Defnyddiwch ffens un top; peidiwch â gosod ffens ddwbl er mwyn hwyluso pori’r nodweddiad yma.
- Anfonwch unrhyw gofnodion o frain coesgoch yn nythu, yn bwydo neu’n gaeafu i [adrienne.stratford@rspb.org.uk](mailto:adrienne.stratford@rspb.org.uk)

Mae dewisiadau rheolaeth a all fod o fudd i frain coesgoch ar gael drwy’r cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir. Am ragor o wybodaeth ynghyd â sut allwch chi helpu’r frân goesgoch, e-bostiwch [lesley.fletcher@rspb.org.uk](mailto:lesley.fletcher@rspb.org.uk)



Gweithredu ar raddfa fawr dros fyd natur – nod project Tirlun i’r Dyfodol yr RSPB yw achub bywyd gwyllt ledled tirluniau cyfan, megis Gwastadeddau Gwent

## Tirlun i’r Dyfodol: cadwraeth y tu hwnt i ffiniau

Tirlun i’r Dyfodol yw ateb yr RSPB i ddull cadwraeth sy’n datblygu sef “cadwraeth ar raddfa’r tirlun”. Fel mae’r enw’n awgrymu, newid yw hwn i gyfeiriad cadwraeth natur ar raddfa fawr, ledled y tirlun, yn hytrach na chael ei gyfyngu gan ffiniau mannau gwarchoddedig bach megis gwarchodfeydd natur. Mae’n golygu rheoli natur mewn darnau “graddfa’r-tirlun” o’r DU. Mae’n gysyniad enfawr.

I ymateb i’r her yma mae’n ofynnol i’r RSPB gydweithio mewn partneriaeth â llawer o dirfeddianwyr a chyrrff eraill i wireddu gweledigaeth ar y cyd. Mae angen i bob un ohonom anelu at ddyfodol cynaliadwy i gefn gwlad Cymru. Ar hyn o bryd mae RSPB Cymru’n cydweithio gyda llawer o bartneriaid cenedlaethol a lleol, i ddatblygu portffolio o brojectau graddfa’r-tirlun ledled y wlad. Ar hyn o bryd, mae gennym dri Thirlun i’r Dyfodol sy’n datblygu’n gyflym yng Nghymru.

### Tirlun i’r Dyfodol Rhostiroedd Gogledd Cymru

Mae’r ucheldir eang hwn yn ymestyn o Flaenau Ffestiniog yn y gorllewin i Wrecsam yn y dwyrain. Mae’n fawr, oddeutu 5% o Gymru, ac yn dirlun trawiadol sy’n cael ei amaethu: clytwaith o rostir yr ucheldir, coedlannau, glaswelltir a gorgors. Mae’n cynnal rhywogaethau o adar â blaenoriaeth yn ogystal â llawer o anifeiliaid a phlanhigion eraill. Dyma pam fod cymaint o’r ardal wedi ei dynodi’n SDdGA, yn Ardal Cadwraeth Arbennig ac yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig.

### Tirlun i’r Dyfodol Gwastadeddau Gwent

Saif y gorlifdir arfordirol, morfa heli a phonciau rhyng-llanwol isel yma ar gyrion aber yr Hafren, sydd o bwysigrwydd rhyngwladol i fywyd gwyllt. Mae’r patrwm o glytwaith o gaeau yn hynafol, ac fe’i sefydlwyd yn yr oes Rufeinig.

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i wella cynefinoedd bywyd gwyllt yn ogystal ag ansawdd bywyd i bobl Casnewydd ac ymwelwyr â’r ardal. Rydym yn defnyddio bioamrywiaeth fel yr ysgogiad ar gyfer adferiad a gwell gwasanaethau ecosystem, megis creu arfordir mwy naturiol ac amgylchedd o wlyptir.

### Tirlun i’r Dyfodol y Tair Afon

Dyma ardal hyfryd o Sir Gaerfyrddin, lle mae aberoedd yr afonydd Tywi, Taf a’r Gwendraeth yn ymuno ac yn llifo i Fae Caerfyrddin. Yn y tirlun mae cynefinoedd amrywiol, yn cynnwys iseldir arfordirol, ponciau tywod rhyng-llanwol, coedlannau llaith, ffermio llaeth a morfa heli llanwol isel.

Mae cydweithio’n agos â thirfeddianwyr a ffermwyr denantiaid wrth wraidd y rhaglen Tirlun i’r Dyfodol. Yn aml mae projectau blaenorol a phresennol yr RSPB yn sail dda ar gyfer cynlluniau newydd, yn enwedig lle’r ydym wedi cydweithio gyda’r sawl sydd â rhywogaethau o adar prin neu sy’n prinhaus ar eu tir.

Rydym yn cydweithio i greu partneriaethau newydd gyda phrif dirfeddianwyr, ffermwyr lleol, grwpiau cymunedol, y sector preifat, cyrrff ac elusennau eraill, yn ogystal ag awdurdodau llywodraethol perthnasol. Mae arnom angen datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer cefn gwlad sy’n briodol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Byddai’n hawdd iawn colli mwy o rywogaethau prin ac sy’n prinhaus o Gymru, felly mae newid mewn rheolaeth cadwraeth oddi wrth ardaloedd sy’n “bwysig o ran bioamrywiaeth” tuag at dirluniau sy’n gyfeillgar i fywyd gwyllt yn hanfodol bwysig. Os hoffech gymryd rhan gyda Thirlun i’r Dyfodol, yna cofiwch gysylltu.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â John Clark ar [john.clark1@rspb.org.uk](mailto:john.clark1@rspb.org.uk) neu ffoniwch 029 2035 3000.



# Beth yw barn ffermwyr am y GGaFf?

Mae adborth gan ffermwyr am y GGaFf yn ein galluogi i adolygu a sicrhau gwelliannau fel ei bod yn parhau i fod o fudd i bawb sydd ynglŷn â hi.

Pob blwyddyn, anfonir holiaduron i ffermwyr a dderbyniodd arolwg y flwyddyn cyn y ddiwethaf. Mae hyn yn caniatáu amser iddyn nhw weithredu yn ôl y cyngor a thechnegau rheolaeth a ddarparwyd.

Dengys yr holiaduron a dderbyniwyd gan ffermwyr yn 2011 bod:

- 98% yn credu bod y map wedi ei lamneiddio'n ddefnyddiol
- 97% yn teimlo bod cymryd rhan yn y GGaFf wedi bod yn brofiad gwerth chweil
- 88% wedi gweithredu'r canllawiau rheolaeth ar ran adar ffermdir a anfonwyd gyda'r map
- bod gan 84% rywogaethau ar eu ffermydd nad oedden nhw wedi sylwi arny'n nhw o'r blaen
- 65% wedi adrodd eu bod yn fwy ymwybodol o bolisiau megis y Cyfarwyddyd Adar.

## A beth yw barn gwirfoddolwyr?

Dengys yr holiaduron a gwblhawyd gan wirfoddolwyr a fu'n cymryd rhan yn y GGaFf yn 2011 bod:

- 97% wedi mwynhau cymryd rhan yn y GGaFf
- 97% yn teimlo bod yr hyfforddiant a gafwyd un ai'n dda neu'n ardderchog
- 97% yn fodlon gyda'r lefel o gefnogaeth a dderbyniwyd
- 82% yn teimlo bod eu dealltwriaeth o adar ffermdir a chadwraeth wedi gwella
- 75% yn adrodd nad oedden nhw wedi dod ar draws problemau yn ystod yr arolygon
- 70% yn adrodd eu bod yn fwy ymwybodol o bolisiau fel y Cyfarwyddyd Adar.

## Yr wybodaeth ddiweddaraf i chi

Mae'r RSPB yn diweddarau'n barhaol ei systemau a'i phrosesau o gadw gwybodaeth. Cedwir gwybodaeth am y fferm a manylion eraill a roir gennych gan yr RSPB ar bapur ac yn electronaidd. Cedwir y manylion yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich enw, cyfeiriad nag unrhyw wybodaeth arall i gyrrff allanol heb eich caniatâd. Mae'r

RSPB yn dod o hyd i ddulliau newydd o gynorthwyo ffermwyr i warchod bywyd gwylt yn barhaol. Mae'n bosib yr hoffem gysylltu â chi o bryd i'w gilydd gyda gwybodaeth o'r fath. Os nad ydych yn dymuno i ni ddefnyddio eich manylion fel hyn, cofiwch gysylltu â staff y project yn eich ardal chi – manylion cyswllt isod.

## Y Cyfarwyddyd Adar

Amcan y Cyfarwyddyd Adar yw gwarchod bioamrywiaeth yn Ewrop. Mae'r gwaith a amlinellir yn y cylchlythyr hwn yn hyrwyddo pwysigrwydd y Cyfarwyddyd Adar o ran rheolaeth gadwraeth ar ffermdir, gan greu proffil positif

drwy gyfrwng gweithgareddau hyrwyddo.

[http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/birdsdirective/index\\_en.htm](http://ec.europa.eu/environment/nature/legislation/birdsdirective/index_en.htm)

## MWY O WYBODAETH

[www.rspb.org.uk](http://www.rspb.org.uk) neu e-bostiwrch: [v&fa@rspb.org.uk](mailto:v&fa@rspb.org.uk)

### Cysylltwch â staff y project yn swyddfeydd canlynol yr RSPB

**Pencadlys y DU** The Lodge, Sandy, Swydd Bedford SG19 2DL Ffôn: 01767 680551

**Pencadlys Cymru** Tŷ Sutherland, Pontycastell, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd CF11 8AB

Ffôn: 029 2035 3000

**Swyddfa Gogledd Cymru** Uned 14 Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd LL57 4FD

Ffôn: 01248 672850



Mae'r RSPB yn eiriol dros adar a bywyd gwylt, ac yn mynd i'r afael â'r problemau sy'n bygwth ein hamgylchedd. Mae natur yn rhyfeddol – dewch i'n helpu i'w gadw felly.



Rydym yn aelod o BirdLife International, y bartneriaeth fyd-eang o gyrrff cadwraeth adar.

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) yn elusen gofrestredig: Lloegr a Chymru rhif 207076, Yr Alban rhif SC037654 223-2324-11-12